



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Cymdeithas Tai Aelwyd - L108

Mawrth 2020

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

https://llyw.cymru/cymdeithasau-tai-sydd-wediu-cofrestru-yng-nghymru-fframwaith-rheoleiddiol?_ga=2.156061811.935929104.1567502747-967264633.1559633053

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

Proffil

Mae Cymdeithas Tai Aelwyd (“Aelwyd” neu “y Gymdeithas”) yn cymdeithas tai Gristnogol a gofrestrwyd ym mis Mawrth 1991, yn dilyn trosglwyddo eiddo o'r Gymdeithas Tai Fedyddiedig a phartneriaeth gyda'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Mae Aelwyd yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac yn gymdeithas gofrestrdedig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Mae Aelwyd yn berchen ar 246 o gartrefi ledled De Cymru ac yn eu rheoli, mewn 10 awdurdod lleol, gan gynnwys 223 o gartrefi gwarchod a 23 o gartrefi anghenion cyffredinol.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, trosiant y Gymdeithas oedd £1,269,483 (2018: £1,233,378). Ei gwarged cyn ail-fesur y rhwymedigaeth pensiwn oedd £39,255 (2018: £145,418) ac roedd yn cyflogi 11 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn (2018: 11).

Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfartaledd ar gyfer y Sector
	2017/18	2018/19		
Perfformiad				
Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant	17.1%	9.3%	n/a	20.1%
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	11.8%	3.1%	n/a	8.1%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti	1.0%	1.1%	n/a	2.1%
Cyllid				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	60%	63%	n/a	75%
Geriad	11%	10%	35%	44%
Sicrwydd llog	490%	424%	100%	165%
Mae gan y Gymdeithas ddigon o gyllid i fodloni ei hangenion busnes cyfredol a'r ymrwymadau sydd wedi eu rhagweld yn y dyfodol.				

Barn Reoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

Statws Cydreoleiddio – Mawrth 2020

Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

Hyfywedd Ariannol - Safonol

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.